Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau
Ffordd Castellau, Beddau
Rhondda Cynon Taf
CF38 2AA

Rhif yr Ysgol: 6742359

Dyddiad yr Arolygiad: 07/07/09

gan

Len Jones
16360

Dyddiad Cyhoeddi: 09/09/09

O dan rif contract Estyn: 1125208

℗ **Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau rhwng y 07/07/09 a 09/07/09, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Len Jones. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Mae'r tabl isod yn dangos y termau a ddefnyddir gan Estyn a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl ar gyfer rhoi arweiniad yn unig.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau	**Hanner/tua hanner**	yn agos i 50%
Y rhan fwyaf	90% neu fwy	**Lleiafrif**	islaw 40%
Llawer	70% neu fwy	**Rhai**	islaw 20%
Mwyafrif	dros 60%	**Ychydig iawn**	llai Dd/G 10%

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen

Cyd-destun 1

Crynodeb 2

Argymhellion 7

Safonau 7

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 7

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant 11

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? 11

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 13

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? 15

Arweinyddiaeth a rheolaeth 18

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? 18

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 19

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 20

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu 22

Cyfnod Sylfaen 22
Gwyddoniaeth 27
Dylunio a thechnoleg 28
Hanes 29
Celf a dylunio 31
Addysg gorfforol 32

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad 33

Atodiadau 34

1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol 34
2 Data a dangosyddion ysgol 34
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 35
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad 36
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu 37

Cyd-destun

Natur y darparwr

1 Mae Ysgol Gymraeg Castellau, a agorwyd yn 1985, wedi ei lleoli ym mhentref Y Beddau, rhwng Llantrisant a Phontypridd. Fe'i cynhelir gan Awdurdod Addysg Lleol (AALl) Rhondda Cynon Taf.

2 Daw'r disgyblion yn bennaf o'r Beddau, Tynant a Gwaun Meisgyn, gyda nifer fechan hefyd o bentrefi cyfagos Efail Isaf, Tonteg a Phentre'r Eglwys. Mae dros 95% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg fel prif iaith, gyda 3% yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg, a 1% yn dod o gartrefi lle siaredir ieithoedd tramor.

3 Disgrifia'r ysgol y dalgylch y daw'r disgyblion ohono fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae 15% o'r disgyblion gyda'r hawl i brydau bwyd am ddim, ffigwr sydd yn sylweddol is na'r ffigwr ar gyfer y sir ac ychydig yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru.

4 Yn ystod yr arolygiad, roedd 197 disgybl ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 39 o blant oedran meithrin sy'n mynychu yn amser-llawn, ac sy'n cael eu derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn dair oed.

5 Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion sy'n cynrychioli'r ystod gallu llawn. Yn ystod yr arolygiad, roedd 30 o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yr ysgol.

6 Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mehefin, 2003, pan oedd 165 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 28 o blant oedran meithrin amser-llawn.

7 Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Medi 2007.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

8 Ymysg y blaenoriaethau datblygu a nodir yng Nghynllun Gweithredu'r Ysgol (CDY) am y flwyddyn gyfredol, mae:

- codi proffil darllen trwy'r ysgol, gan ddatblygu adnoddau'r llyfrgell a gweithredu strategaethau darllen dyddiol;
- gwella'r ddarpariaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) drwy sicrhau cysondeb adnoddau ar draws yr ysgol;
- mireinio cynlluniau gwaith yn unol â gofynion Cwricwlwm 2008;
- datblygu dulliau newydd o gynllunio tymor byr;
- datblygu'r ardal goediog; ac
- ymuno â chynllun yr Ysgolion Iach.

Crynodeb

9 Mae Ysgol Gymraeg Castellau yn ysgol dda. Nodweddir hi gan arweiniad trefnus sydd yn arddel disgwyliadau uchel, cyd-weithio effeithiol rhwng yr oll o'r oedolion a gyflogir, a chefnogaeth gadarn gan y rhieni.

10 Mae'r ysgol yn llwyddo i ddarparu addysg o ansawdd da a phrofiadau gwerthfawr i'r holl ystod o ddisgyblion sydd yn ei mynychu.

11 Trwy amrywiol weithgareddau a strategaethau penodol, llwydda'r ysgol i godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd bwyta'n iach ac o gadw'n heini.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol		**Gradd arolygu**
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 2
3	Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 1
4	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 2
5	Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 2
6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 2
7	Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 2

12 Roedd safonau cyflawniad disgyblion yn y gwersi a arsylwyd, yn y meysydd a phynciau a arolygwyd, fel a ganlyn:

Gradd 1	**Gradd 2**	**Gradd 3**	**Gradd 4**	**Gradd 5**
8%	80%	12%	0%	0%

13 Mae'r ffigurau uchod yn rhagori ar y cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd Cymru, fel y cyhoeddwyd hwy yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd ei Mawrhydi (PAEM) ar gyfer 2007-08, sef bod safonau'n dda neu'n well (Graddau 1 a 2) mewn 84% o wersi, ac yn Radd 3 mewn 15% o wersi. Mewn cymhariaeth â safonau cyflawniad disgyblion yn yr arolygiad diwethaf, mae cynnydd sylweddol yn y safonau 'da' y tro hwn, tra bod gostyngiad sylweddol yn y safonau 'da iawn'.

14 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hangenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

Graddau a ddyfarnwyd i'r meysydd dysgu ar gyfer plant o dan bump oed:

Maes Arolygu	**Meithrin**	**Derbyn**
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	2	2
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	2	2
Datblygiad mathemategol	2	2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	1	1
Datblygiad corfforol	2	2
Datblygiad creadigol	1	1

Graddau a ddyfernir yn y pynciau a arolygwyd:

Maes Arolygu	**Cyfnod Sylfaen**	**CA1**	**CA2**
Plant dan bump	Gradd 2		
Gwyddoniaeth		Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg		Gradd 2	Gradd 2
Hanes		Gradd 2	Gradd 2
Celf a dylunio		Gradd 2	Gradd 1
Addysg gorfforol		Gradd 3	Gradd 2

15 Mae disgyblion yn cyflawni safonau da wrth gaffael gwybodaeth, ymarfer eu medrau a chadarnhau eu dealltwriaeth. Maent yn ymwybodol o dargedau personol sydd ganddynt ar gyfer gwella eu gwaith ac, ym mhen ucha'r ysgol, mae ganddynt rôl benodol yn y broses o lunio eu targedau eu hunain. Er hyn, nid yw disgyblion yn cyflawni yn unol â'u potensial wrth gyfansoddi darnau ysgrifenedig yn y ddwy iaith.

16 Mae medrau allweddol plant dan bump oed a disgyblion cyfnodau allweddol 1 a 2 yn datblygu'n dda. Caiff plant dan bump oed feithrin eu medrau iaith, rhifedd a TGCh yn llwyddiannus trwy brofiadau symbylus y Cyfnod Sylfaen. Mae medrau darllen, mathemateg a TGCh disgyblion cyfnodau allweddol 1 a 2 yn datblygu'n effeithiol mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw medrau disgyblion i ysgrifennu'n greadigol ac estynedig, yn y ddwy iaith, yn datblygu'n ddigonol ar draws yr ysgol.

17 Mae hyfedredd a hyder disgyblion yn datblygu'n briodol yn y ddwy iaith, o safbwynt eu gallu i gyfathrebu mewn sefyllfaoedd ffurfiol a chynnal sgyrsiau anffurfiol. Mae gallu disgyblion hynaf yr ysgol i baratoi a cyflwyniad ar gyfer cynulleidfa, trwy gyfrwng y Gymraeg, yn nodwedd ragorol.

18 Yn 2008, roedd canlyniadau asesiadau y ddau gyfnod allweddol yn isel, ac yn eithriad i'r sefyllfa arferol. Nid oedd canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 1

yn uwch na 67% yn yr un o'r tri phwnc a asesir, sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r canlyniadau hyn yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion, wrth ei chymharu ag ysgolion tebyg, o safbwynt niferoedd disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim.

19 Roedd canlyniadau asesiadau cyfnod allweddol 2 yn y pynciau craidd, yn 2008, yn 75% mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth ac yn 58% yn mathemateg. Mae'r canlyniadau hyn yn gosod yr ysgol, mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, yn y 50% isaf o ysgolion mewn Cymraeg a Saesneg ac yn y 25% isaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

20 Mae disgyblion yn datblygu'n dda yn eu medrau personol a chymdeithasol. Llwyddant i ymateb i ganllawiau'r ysgol, sy'n hybu gwerthoedd teilwng ac maent yn barod i estyn cymorth i gyd-ddisgyblion. Drwyddi-draw, mae eu gallu i gydweithio á'i gilydd yn dda. Datblygant ymwybyddiaeth dda o egwyddorion moesol, cyfrannant yn barod at elusennau, a deallant sut mae gwerthoedd, megis gonestrwydd, yn bwysig. Mae eu datblygiad ysbrydol yn dda.

21 Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, gan arddangos moesgarwch a chwrteisi tuag at yr oedolion sydd o'u cwmpas ac at rai sy'n ymweld â'r ysgol. Er hyn, mae cnewyllyn bychan o ddisgyblion ifancaf yr ysgol, nad ydynt yn ddigon parod i ymateb i gyfarwyddiadau a disgwyliadau'r athrawon.

22 Mae ffigurau presenoldeb yn gyffredinol dda, gyda chyfartaledd o 93.8% dros y tri thymor cyn yr arolygiad. Mae prydlondeb ar ddechrau'r dydd ac ar ddechrau sesiynau o fewn y diwrnod, yn dda.

23 Mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o egwyddorion byd gwaith. Fodd bynnag, nid yw medrau menter y disgyblion, ar draws yr ysgol, wedi eu datblygu'n ddigonol.

24 Agwedd ragorol yw ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. Cymerant ran mewn gweithgareddau ysgol-gyfan i ddathlu aml-ddiwylliant, gan ymroi i gynrychioli gwledydd gwahanol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Graddau ar gyfer addysgu

25 Barnwyd ansawdd yr addysgu, yn y pynciau a'r meysydd oedd yn cael eu harolygu, fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
15%	74%	11%	0%	0%

26 Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi yn rhagori ar yr ystadegau ar gyfer Cymru gyfan am 2007-08, fel y cyhoeddwyd hwy yn Adroddiad Blynyddol PAEM, sef bod ansawdd yr addysgu yn Radd 1 neu 2 mewn 83% o wersi gyda 16% yn rhagorol. Mae'r ysgol yn bodloni targed Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar gyfer 2010, sef fod ansawdd yr addysgu a aseswyd gan Estyn yn

Radd 3 neu well mewn 98% o ddosbarthiadau. Mewn cymhariaeth ag ansawdd yr addysgu yn yr arolygiad diwethaf, mae ansawdd yr addysgu 'da' yn uwch yn yr arolygiad presennol, tra bod ansawdd yr addysgu 'da iawn' yn sylweddol is.

27 Mae perthynas dda iawn drwy'r ysgol rhwng yr athrawon, y cymorthyddion a'r disgyblion. Mae athrawon yn frwdfrydig ac, ar y cyfan, yn defnyddio nifer o strategaethau ac adnoddau perthnasol. Mae ganddynt wybodaeth bynciol dda a dealltwriaeth ragorol o raglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig.

28 Mae ansawdd yr addysgu yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 yn meddu ar nodweddion da gyda rhai nodweddion rhagorol. Gweithia'r athrawon yn gydwybodol i ddarparu amrywiaeth eang o dasgau, gan gynnig patrwm rhagorol o seiliau ieithyddol a datblygu hunan hyder y plant yn llwyddiannus.

29 Mae ansawdd yr asesu yn dda ac yn galluogi'r ysgol i adnabod cryfderau a gwendidau disgyblion unigol ac amlygu meysydd i'w datblygu. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer adnabod ac asesu disgyblion ag ADY yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a chânt gefnogaeth briodol drwy'r ysgol.

30 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys yr amgylchedd 'oddi allan' symbylus, yn cyfrannu'n sylweddol at y profiadau uniongyrchol a gynigir i'r plant. Mae'r cwricwlwm eang a ddarperir i ddisgyblion cyfnodau allweddol 1 a 2 yn gytbwys, hyblyg a chydlynus, ac ynghŷd â'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sydd wedi'u cyd-blethu ac yn cydredeg, yn nodwedd ragorol. Mae darpariaeth gwricwlaidd yr ysgol yn llwyddo'n dda i ddiwallu anghenion a diddordebau dysgwyr o bob oed.

31 Cynllunnir yn fwriadus i ddarparu cyfleoedd ar gyfer hyrwyddo'r medrau allweddol o siarad a gwrando, rhifedd, darllen a defnyddio TGCh ar draws y cwricwlwm. Darperir yn effeithiol ar gyfer hyrwyddo medrau dwyieithog y disgyblion. Fodd bynnag, ni ddarperir cyfleoedd digonol i ddatblygu medrau ysgrifennu creadigol disgyblion yn y ddwy iaith, mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

32 Cyfoethogir profiadau disgyblion gan weithgareddau allgyrsiol. Cydweithir yn agos gyda'r gymuned i gynnig amrywiaeth o glybiau ar-ôl-ysgol. Gwneir defnydd da o ymweliadau ac ymwelwyr i atgyfnerthu'r gweithgareddau a chyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae'r disgyblion hŷn yn elwa o brofiad preswyl yng ngwersyll Llangrannog, sy'n hyrwyddo eu datblygiad personol a chymdeithasol, yn ogystal â rhoi mwynhad iddynt.

33 Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n arbennig o effeithiol ac mae'n nodwedd ragorol o fywyd a gwaith yr ysgol. Hyrwyddir datblygiad ysbrydol yn dda yn yr addoliadau ar y cyd, sydd yn cyfarfod â'r gofynion statudol. Dilynir canllawiau fframwaith cenedlaethol ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ac integreiddir yr elfennau yn llwyddiannus i wahanol rannau o'r cwricwlwm.

34 Mae'r gofal a'r cyfarwyddyd ar gyfer disgyblion yn dda, gyda blaenoriaethau uchel yn cael eu rhoi i gynnig cymorth ac arweiniad i'r holl ddisgyblion. Mae staff yn gofalu fod y disgyblion yn cael eu tywys i'r ysgol yn ddiogel yn y boreau, ac yn gadael yn drefnus ar ddiwedd dydd. Rhoddir ystyriaeth dda i les disgyblion yn holl weithdrefnau'r ysgol.

35 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn ymateb yn dda i'r Cod Ymarfer ar gyfer ADY ac yn bodloni gofynion statudol. Mae'r Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) yn glir ac yn benodol, gyda chyfeiriad tuag at y math o gefnogaeth sydd ei angen, ac at adnoddau perthnasol. Darperir cymorth da gan arbenigwyr allanol a gan gymorthyddion dosbarth i wella gallu'r disgyblion mewn sgiliau darllen ac iaith.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

36 Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad cadarn i'r ysgol ac yn arddel gwerthoedd teilwng, yn seiliedig ar greu perthynas dda gyda rhieni a chydweithwyr. Cefnogir y pennaeth yn hynod effeithiol gan ei ddirprwy, sydd ag ymrwymiad diffuant i'w chyfrifoldebau penodol, ac i gydlynu staff addysgu a staff cynorthwyol yn aelodau o un tîm.

37 Mae aelodau'r corff llywodraethu yn frwdfrydig iawn dros yr ysgol ac ystyriant eu rôl fel rheolwyr ar ysgol sydd yn cyson ddatblygu. Gwerthfawroga'r pennaeth waith ac ymroddiad yr aelodau i fywyd a gwaith yr ysgol. Nid yw aelodau'r corff llywodraethu, fodd bynnag, yn ymwneud yn ddigon rhagweithiol â monitro ansawdd darpariaeth yr ysgol.

38 Mae'r ysgol wedi sefydlu prosesau hunan arfarnu rhagorol, yn seiliedig ar amserlen i fonitro pynciau ac ar ysbryd o ymddiriedaeth ymysg staff. Mae ymdrechion llwyddiannus y cydlynwyr adrannau yn greiddiol i effeithiolrwydd y prosesau hyn. Yn ogystal, datblygodd y cydlynwyr pynciau ddealltwriaeth hynod o dda o'u cyfrifoldebau. Maent yn drefnus a chydwybodol ynglŷn â'u gwaith.

39 Gwnaeth yr ysgol gynnydd da wrth ymateb i'r pedwar mater allweddol a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad blaenorol.

40 Mae gan yr ysgol drefniadaeth effeithiol, trwy gyfrwng holiadur blynyddol, ar gyfer cywain barn rhieni am y ddarpariaeth a gynigir i'w plant. Yn achlysurol, mae'r pennaeth hefyd yn holi disgyblion yn benodol am eu barn am yr ysgol.

41 Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) am y cyfnod 2008-11 yn cynnwys manylion am y 14 blaenoriaeth datblygu a gafodd eu nodi ynddi ar gyfer y flwyddyn bresennol. Mae rhai o'r blaenoriaethau wedi eu cyflawni eisoes yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, nid yw'r CDY yn cynnwys arfarniad o'r modd y cyflawnwyd blaenoriaethau y flwyddyn flaenorol.

42 Cyflogir nifer digonol o athrawon a staff cynorthwyol ar gyfer rhif y disgyblion, ac maent yn mynychu ystod o gyrsiau hyfforddiant-mewn-swydd sydd yn adlewyrchu blaenoriaethau datblygiad yr ysgol. Mae ymroddiad yr holl staff cynorthwyol yn hybu amcanion yr ysgol yn effeithiol, gyda defnydd rhagorol yn cael ei wneud o arbenigedd rhai unigolion.

43 Mae adeilad a dosbarthiadau'r ysgol yn cynnig digon o le ar gyfer gweithgareddau ymarferol ac mae maint a chyflwr y buarth a'r cae chwarae yn addas. Datblygwyd mannau awyr agored delfrydol ar gyfer cynnal gweithgareddau plant y Cyfnod Sylfaen. Ychwanegir at naws ysgogol yr ysgol gan arddangosfeydd deniadol.

44 Mae nifer ac ystod yr adnoddau sydd ar gael i gynnal a chefnogi'r addysgu yn rhagorol. Ceir adnoddau cyfrifiadurol digonol ym mhob dosbarth, ynghyd â byrddau gwyn rhyngweithiol, sydd yn cael eu defnyddio'n bwrpasol mewn gwersi. Ceir llyfrgell addas wedi ei threfnu'n daclus.

45 Mae adnoddau'r ysgol yn cael eu rheoli yn effeithlon gan y pennaeth a'r corff llywodraethu. Caiff cyllideb yr ysgol hefyd ei rheoli yn dda gan y pennaeth, gyda'r corff llywodraethu yn cadw golwg cyson ar effeithiolrwydd y gwariant. Cedwir unrhyw danwariant blynyddol o fewn swm derbyniol. Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Argymhellion

46 Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau addysg gorfforol yng nghyfnod allweddol 1;

A2 darparu cyfleoedd ehangach i ddisgyblion ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau yn y ddwy iaith;

A3 datblygu prosesau fydd yn galluogi'r corff llywodraethu i ymwneud mwy â monitro'r ddarpariaeth addysgol; a

A4 datblygu strategaethau i hybu medrau menter y disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

47 Mae canfyddiad y tîm arolygu yn cytuno â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

48 Mae'r graddau ar gyfer safonau cyflawniad y disgyblion, yn y pynciau a arolygir, fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
8%	80%	12%	0%	0%

49 Mae'r ffigurau uchod yn rhagori ar y cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd Cymru, fel y cyhoeddwyd hwy yn Adroddiad Blynyddol PAEM ar gyfer 2007-08, sef bod safonau'n dda neu'n well (Graddau 1 a 2) mewn 84% o wersi, ac yn Radd 3 mewn 15% o wersi. Mewn cymhariaeth â'r safonau cyflawniad yn yr arolygiad diwethaf, mae'r safonau 'da iawn' yn sylweddol is y tro hwn, tra bod safonau 'da' yn sylweddol uwch.

Graddau a ddyfarnwyd i'r meysydd dysgu ar gyfer plant o dan bump oed:

Maes Arolygu	Meithrin	Derbyn
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	2	2
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	2	2
Datblygiad mathemategol	2	2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	1	1
Datblygiad corfforol	2	2
Datblygiad creadigol	1	1

Graddau a ddyfernir yn y pynciau a arolygwyd:

Maes Arolygu	Cyfnod Sylfaen	CA1	CA2
Plant dan bump	Gradd 2		
Gwyddoniaeth		Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg		Gradd 2	Gradd 2
Hanes		Gradd 2	Gradd 2
Celf a dylunio		Gradd 2	Gradd 1
Addysg gorfforol		Gradd 3	Gradd 2

50 Yn 2008, roedd canlyniadau asesiadau y ddau gyfnod allweddol yn isel, ac yn eithriad i'r sefyllfa arferol. Nid oedd canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 1 yn uwch na 67% yn yr un o'r tri phwnc a asesir, sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, gyda'r datganiad pynciau craidd (DPC), sef y ganran sy'n llwyddo i ennill Lefel 2 neu uwch yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, yn 61%. Mae'r canlyniadau hyn yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion, wrth ei chymharu ag ysgolion tebyg, o safbwynt niferoedd disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim.

51 Mae canlyniadau asesiadau cyfnod allweddol 2 yn y pynciau craidd, yn 2008, yn 75% mewn tri phwnc ac yn 58% yn y llall, gyda'r DPC (cyrraedd Lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth) mor isel â 50% . Mae'r canlyniadau hyn yn gosod yr ysgol, mewn cymhariaeth

ag ysgolion tebyg, yn y 50% isaf o ysgolion mewn Cymraeg a Saesneg ac yn y 25% isaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r ysgol wedi dadansoddi'r canlyniadau ac wedi canfod rhesymau dilys, megis canran uchel o ddisgyblion ADY, dros beth o'r cwymp.

52 Dros y tair blynedd, 2006-08, mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 1 wedi gosod yr ysgol, yn amlach na pheidio, ymysg y 50% isaf o ysgolion tebyg. Mae cyflawniadau mathemateg a gwyddoniaeth yn gyson is na'r canolrif ac nid oes tueddiad o wella perfformiad yn amlwg dros y blynyddoedd hyn. Mae canlyniadau 2009 yn dangos cynnydd, er eu bod eto fymryn yn is na chanlyniadau cenedlaethol.

53 Dengys y canlyniadau yn asesiadau disgyblion cyfnod allweddol 2, dros y blynyddoedd 2006-08, fod perfformiad yr ysgol yn gyson dda tan y flwyddyn ddiwethaf. Eto, dengys canlyniadau 2009 gynnydd, er bod DPC yr ysgol yn is na'r DPC cenedlaethol.

54 Wrth gymharu perfformiadau bechgyn a merched dros y blynyddoedd diwethaf, gwelir bod merched yn gyffredinol yn cyflawni'n well na bechgyn, yn y ddau gyfnod allweddol. Serch hyn, mae'r ysgol wedi adnabod mathemateg fel pwnc lle mae merched yn tangyflawni yng nghyfnod allweddol 2, ac maent yn darparu cefnogaeth ychwanegol iddynt.

55 Dengys y disgyblion allu da i gaffael a deall gwybodaeth newydd, ac i ddeall yr hyn a ddysgwyd ganddynt mewn gwersi. Maent yn ymwybodol o dargedau personol, mewn meysydd cwricwlaidd ac mewn agwedd o ddatblygiad personol, a chaiff y disgyblion ran weithredol yn trafod eu targedau a'u cynnydd. Mae bron pob disgybl sydd ag ADY yn dangos cynnydd da.

56 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

57 Mae medrau allweddol plant dan bump oed yn datblygu'n dda, wrth iddynt ymwneud ag amrywiol weithgareddau'r Cyfnod Sylfaen. Datblygant fedrau llythrennedd wrth labelu, cofnodi brawddegau syml ac ymarfer llythrennau penodol. Datblygant fedrau rhifedd wrth gydweddu rhifau a gwrthrychau, adnabod ac ymarfer ffurfio rhifolon penodol, gosod nifer penodol o wyau ar ddail neu osod rhifau mewn trefn. Mae eu hyder gydag adnoddau TGCh yn cynyddu wrth iddynt lunio cylch bywyd y broga, creu llun a brawddeg, neu chwarae gêm 'Dal y Llythyren'.

58 Mae gan ddisgyblion cyfnodau allweddol 1 a 2 fedrau darllen priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'r goreuon yn hynod aeddfed eu gwybodaeth am lyfrau ac yn ddarllenwyr eiddgar yn y Saesneg. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn llunio ystod digonol o ddarnau estynedig o ysgrifennu rhydd, yn y Gymraeg na'r Saesneg, a hynny mewn gwahanol ffurfiau.

59 Mae medrau rhifedd y disgyblion yn datblygu wrth iddynt osod digwyddiadau mewn trefn gronolegol ar linell-amser y ganrif ddiwethaf, ymwneud â chyfeirnodau ar Ynys Y Môr-ladron, neu drwy weithgareddau mesur, megis mesuriadau'r pwll ar dir yr ysgol a mesur pyls cyn ac wedi ymarfer corfforol.

60 Datblyga disgyblion y ddau gyfnod allweddol fedrau TGCh yn effeithiol drwy greu cronfa ddata ganghennog, llunio graff o 'Hoff Liwiau' neu boster o nodweddion atyniadol Porthcawl.

61 Mae hyfedredd a hyder disgyblion yn datblygu'n briodol yn y ddwy iaith, o safbwynt eu gallu i gyfathrebu mewn sefyllfa ffurfiol a chynnal sgyrsiau anffurfiol. Mae gallu disgyblion hynaf yr ysgol i baratoi cyflwyniad ar gyfer cynulleidfa, trwy gyfrwng y Gymraeg, yn nodwedd ragorol.

62 Gwna disgyblion ddefnydd priodol o amser yn eu gwersi a'u gweithgareddau, gan ymroi i'w gwaith a dangos dyfalbarhad wrth eu tasgau. Pan ofynnir iddynt, gallant weithio'n annibynnol, heb oruchwyliaeth uniongyrchol, gan ymarfer y gallu i resymu a datrys problemau.

63 Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda gan arddangos moesgarwch a chwrteisi tuag at yr oedolion sydd o'u cwmpas ac at rai sy'n ymweld â'r ysgol. Er hyn, mae cnewyllyn bychan o ddisgyblion tua gwaelod yr ysgol nad ydynt yn ddigon parod i ymateb i gyfarwyddiadau a disgwyliadau'r athrawon.

64 Mae ffigurau presenoldeb yn gyffredinol dda, gyda chyfartaledd o 93.8% dros y tri thymor cyn yr arolygiad. Mae prydlondeb ar ddechrau'r dydd ac ar ddechrau sesiynnau o fewn y diwrnod, yn dda, er bod lleiafrif bychan yn cyrraedd yn hwyr yn y bore.

65 Mae disgyblion yn datblygu'n dda yn eu medrau personol a chymdeithasol. Llwyddant i ymateb i ganllawiau'r ysgol, sy'n hybu gwerthoedd teilwng ac maent yn barod i estyn cymorth i gyd-ddisgyblion. Drwyddi-draw, mae eu gallu i gydweithio â'i gilydd yn dda, er bod lleiafrif bychan o ddisgyblion yn methu cyflawni hyn.

66 Datblygant ymwybyddiaeth dda o egwyddorion moesol a chyfrannant yn barod at elusennau. Deallant sut mae gwerthoedd, megis gonestrwydd, yn bwysig.

67 Mae disgyblion yn manteisio'n rheolaidd ar ymweliadau penodol a drefnir i fannau gwaith, ac ar ymwelwyr a wahoddir i'r ysgol, i ddatblygu ymwybyddiaeth dda o egwyddorion byd gwaith. Fodd bynnag, nid yw medrau menter y disgyblion, ar draws yr ysgol, wedi eu datblygu'n ddigonol.

68 Mae disgyblion yn ymwneud yn dda â'u cymuned, ac yn ymfalchïo yn eu hardal leol. Gwyddant am darddiad yr enw Castellau a gallant enwi pentrefi a threfi cyfagos. Dangosant yn rhagorol, trwy eu cyfraniad mewn gwasanaeth ysgol-gyfan, eu ymdeimlad o berthyn.

69 Agwedd ragorol yw ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. Cymerant ran yn y gweithgareddau ysgol-gyfan i ddathlu Wythnos Aml-ddiwylliant, gan uniaethu trwy wisgoedd a baneri, gyda gwledydd gwahanol. Mae disgyblion un dosbarth wedi cymharu nodweddion Cymru a Botswana, a phrofodd disgyblion fwyd a baratowyd yn yr ysgol gan berchennog bwyty Indiaidd lleol.

70 Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o gyfle cyfartal a'r angen am degwch.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

71 Mae canfyddiad y tîm arolygu yn cytuno â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

72 Barnwyd ansawdd yr addysgu, yn y pynciau a'r meysydd oedd yn cael eu harolygu, fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
15%	74%	11%	0%	0%

73 Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi yn rhagori ar yr ystadegau ar gyfer Cymru gyfan am 2007-08, fel y cyhoeddwyd hwy yn Adroddiad Blynyddol PAEM, sef bod ansawdd yr addysgu yn Radd 1 neu 2 mewn 83% o wersi gyda 16% yn rhagorol. Mae'r ysgol yn bodloni targed LICC ar gyfer 2010, sef bod ansawdd yr addysgu a aseswyd gan Estyn yn Radd 3 neu well mewn 98% o ddosbarthiadau. Mewn cymhariaeth ag ansawdd yr addysgu yn yr arolygiad diwethaf, mae ansawdd yr addysgu 'da' yn uwch yn yr arolygiad presennol, tra bod ansawdd yr addysgu 'da iawn' yn sylweddol is.

74 Mae perthynas dda iawn drwy'r ysgol rhwng yr athrawon, y cymorthyddion a'r disgyblion, sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol iawn. Yn y dosbarthiadau, mae athrawon yn frwdfrydig a cheir cydweithrediad hyfryd rhyngddynt â'r cymorthyddion, sy'n gwneud cyfraniad sylweddol yn y gwersi.

75 Mae ansawdd yr addysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn meddu ar nodweddion da a rhai nodweddion rhagorol. Gweithia'r athrawon yn gydwybodol i ddarparu amrywiaeth eang o dasgau, mewn awyrgylch cefnogol, gan ddatblygu hunan hyder y plant yn llwyddiannus.

76 Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda a dealltwriaeth ragorol o raglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd. Dangosant eu bod yn gyfarwydd â datblygiadau diweddar yn eu maes, gan elwa o ystod eang o gyrsiau hyfforddi sy'n hyrwyddo blaenoriaethau cenedlaethol.

77 Mae'r gwersi'n cael eu strwythuro'n dda gydag amcanion dysgu clir a rennir yn gyson gyda disgyblion. Defnyddir athroniaeth y Cyfnod Sylfaenol yn effeithiol drwy sicrhau cyfranogiad mwy gweithredol gan y disgyblion mewn gwersi. Mae amrediad o waith unigol, gwaith pâr a grŵp yn arwain at ddysgu annibynnol drwy'r ysgol. Mae cyflwyniadau'r gwersi yn cadarnhau dysgu blaenorol ac yn annog disgyblion i gymryd rhan mewn trafodaethau.

78 Nodwedd ragorol o waith yr athrawon yw hyrwyddo datblygiad medrau dwyieithog y disgyblion. Drwy strategaethau pwrpasol, mae medrau cyfathrebu

disgyblion yn cael eu datblygu ar draws y cwricwlwm, gan dalu sylw priodol i ehangu geirfa a phatrymau brawddegol.

79 Mae'r ysgol yn hybu cyfleoedd cyfartal yn effeithiol. Llwydda'r staff i gyflawni anghenion y disgyblion, gan gynnwys y rhai hynny ag ADY. Gosodir gwaith cartref yn rheolaidd ac fe'i cysylltir yn briodol â gwaith y dosbarth.

80 Mae nodweddion rhagorol yr addysgu yn cynnwys:
- cyflwyno profiadau symbylus, strwythuredig sy'n ymestyn y dysgu'n llwyddiannus;
- cyflwyno patrwm o iaith gyfoethog sy'n hyrwyddo medrau disgyblion i gyfathrebu ac sy'n fodelau rôl hynod o effeithiol; ac
- ymestyn galluoedd disgyblion i arbrofi, darganfod, a dyfnhau eu dealltwriaeth am bwnc penodol.

81 Mae nodweddion yr addysgu da yn cynnwys:
- defnydd effeithiol o ganmoliaeth a rhyngweithio da rhwng athrawon a disgyblion sy'n hybu'r dysgu'n dda;
- defnydd effeithiol o adnoddau gan gynnwys y bwrdd gwyn rhyngweithiol;
- gosod meini prawf clir sy'n sail i asesu datblygiad disgyblion;
- holi da sy'n ysgogi disgyblion i grynhoi canfyddiadau; ac
- anogaeth i ddisgyblion weithio'n annibynnol.

82 Mae ansawdd yr asesu yn dda ac yn galluogi'r ysgol i adnabod cryfderau a gwendidau disgyblion unigol ac amlygu meysydd i'w datblygu.

83 Yn y Cyfnod Sylfaen, ynghŷd â'r asesu gwaelodlin, mabwysiadwyd strategaethau hylaw ac effeithiol er mwyn asesu datblygiad parhaus pob plentyn. Maent yn gymorth i adnabod anghenion a gosod targedau unigol i ddisgyblion wrth iddynt gychwyn yng nghyfnod allweddol 1.

84 Cedwir ffurflenni tracio cynnydd manwl sy'n cynnwys gwybodaeth fuddiol am berfformiad disgyblion trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Nodwedd ragorol yw'r modd y mae cydlynwyr yn tracio cynnydd yn eu pynciau drwy'r ysgol. Mae'r prosesau o fonitro ac asesu wedi'u plethu yn effeithiol ar gyfer cyfarwyddo gwaith cynllunio'r athrawon.

85 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer adnabod ac asesu disgyblion ag ADY yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a chaiff y disgyblion gefnogaeth briodol drwy'r ysgol. Dadansoddir y tueddiadau mewn perfformiad bechgyn a merched a pherfformiad yr ysgol, gan eu cymharu gyda chanlyniadau cenedlaethol.

86 Ceir arfer dda, ar y cyd ag ysgolion y clwstwr, o gyd-safoni esiamplau o waith yn y pynciau craidd a chedwir portffolios sy'n cynnig darlun clir o safonau'r ysgol ar draws y cwricwlwm.

87 Rhennir meini prawf llwyddiant a meithrinir gallu'r disgyblion i asesu eu perfformiad a gosod targedau tymhorol personol.Yn gyffredinol, maent yn deall sut y gallant wella.

88 Er bod gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd a gyda sensitifrwydd, nid yw'r arfer o gynnig sylwadau ynglŷn â'r dulliau o wella yn ddigon adeiladol er mwyn ymestyn a datblygu'r cynnwys.

89 Gwahoddir rhieni i'r ysgol ddwywaith y flwyddyn i drafod cynnydd eu plant. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn cydymffurfio â'r gofynion. Nodir ynddynt dargedau ar gyfer gwella a rhoddir cyfle i'r rhieni i roi adborth ysgrifenedig ar yr adroddiad.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

90 Mae canfyddiad y tîm arolygu yn wahanol i'r Radd 2 a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Roedd y tîm arolygu o'r farn fod nifer o nodweddion, megis y cynllunio, y gweithgareddau a gynigir a'r modd yr hyrwyddir iaith a diwylliant Cymru, yn elfennau rhagorol.

91 Mae'r ysgol yn llwyddo'n dda i ddiwallu anghenion a diddordebau dysgwyr o bob oed a gallu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys yr amgylchedd allanol symbylus, yn cyfrannu'n sylweddol at y profiadau uniongyrchol a gynigir i'r plant.

92 Mae'r cwricwlwm eang a ddarperir yn gytbwys, hyblyg a chydlynus, ac ynghŷd â'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sydd wedi'u cyd-blethu, yn nodwedd ragorol. Mae'r cynlluniau diwygiedig, sy'n ymgorffori gofynion y Fframwaith Sgiliau, yn cynnig canllawiau clir i'r athrawon er mwyn sicrhau cydlynedd a dilyniant ar draws yr ysgol. Gwneir defnydd da o arbenigedd staff i sicrhau bod yr holl weithgareddau a gynlluniwyd yn hybu dysgu a datblygiad personol disgyblion.

93 Cynllunnir yn fwriadus i ddarparu cyfleoedd ar gyfer hyrwyddo'r medrau allweddol o siarad a gwrando, rhifedd, darllen a'r defnydd o TGCh ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, ni ddarperir cyfleoedd digonol i ddatblygu medrau ysgrifennu creadigol disgyblion yn y ddwy iaith, mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

94 Mae gwaith cynllunio'r athrawon yn dynodi cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau meddwl yn llwyddiannus mewn ystod o gyd-destunau, ac yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer dysgu annibynnol a datrys problemau. Mae'r profiadau a ddarperir ar gyfer datblygu sgiliau creadigol y disgyblion, yn enwedig mewn gwaith celf, o ansawdd uchel iawn.

95 Cyfoethogir profiadau disgyblion gan weithgareddau allgyrsiol. Cydweithir yn agos gyda'r gymuned i gynnig amrywiaeth o glybiau ar ôl ysgol, lle darperir cyfleoedd i ddisgyblion fireinio eu sgiliau mewn pêl-droed, hoci, pêl-rwyd, rygbi, criced, dawns a golff yn eu tymor.

96 Gwneir defnydd da o ymweliadau ac ymwelwyr i atgyfnerthu'r gweithgareddau a chyfoethogi profiadau'r disgyblion. Cânt brofiadau gwerthfawr wrth ymweld â mannau o ddiddordeb o ran hanes, diwylliant a gwaith, megis Techniquest, Amgueddfa Llancaiach Fawr, Sain Ffagan, y capel, yr amgueddfa a'r brifysgol leol. Mae'r disgyblion hŷn yn elwa o brofiad preswyl yng ngwersyll Llangrannog, sy'n hyrwyddo eu datblygiad personol a chymdeithasol, yn ogystal â rhoi mwynhad iddynt. Daw unigolion i'r ysgol i sôn am eu profiadau a rhannu eu harbenigedd mewn barddoniaeth, chwaraeon a hanes.

97 Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n arbennig o effeithol ac mae'n nodwedd ragorol o fywyd a gwaith yr ysgol. Hyrwyddir datblygiad ysbrydol yn dda a chânt brofiadau effeithiol yn yr addoliadau ar y cyd, lle crëir naws arbennig a chenir nifer o emynau'n ysbrydoledig. Mae'r addoliadau ar y cyd yn bodloni'r gofynion statudol. Mae rhannu negeseuon moesol, megis gonestrwydd, yn elfen gref o fewn y ddarpariaeth. Mae'r cyfleoedd niferus a gaiff y disgyblion i godi arian at nifer o wahanol elusennnau, megis Tŷ Hafan ac elusennau cenedlaethol amrywiol, yn gwneud cyfraniad allweddol tuag at godi eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion.

98 Dilynir canllawiau fframwaith cenedlaethol ar gyfer ABCh ac integreiddir yr elfennau yn llwyddiannus i wahanol rannau o'r cwricwlwm. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif wrth ofalu am y plant lleiaf ac mae sesiynau 'amser cylch' yn rhoi cyfleoedd da i drafod sut mae ymddwyn tuag at eraill. Ceir ffocws da ar fwyta'n iach ac mae'r ysgol wedi ymrwymo i fenter 'Ysgolion Iach' yr AALl.

99 Mae partneriaethau da yn bodoli gyda'r rhieni. Anfonir cylchlythyron yn rheolaidd a gwneir defnydd llwyddiannus o negeseuon-testun, er mwyn trosglwyddo gwybodaeth. Cyhoeddir prosbectws yr ysgol yn flynyddol, ac mae'n cwrdd â'r gofynion statudol. Yn yr holiaduron ac yn y cyfarfod cyn-arolwg, mynegodd y rhieni eu bodlonrwydd gyda'r berthynas effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn weithgar wrth drefnu gweithgareddau i gyllido prosiectau a phrynu adnoddau ychwanegol. Gwerthfawrogir cyfraniad y rhieni tuag at ardd yr ysgol, y clybiau allgyrsiol ac wrth wrando ar blant yn darllen.

100 Chwaraea'r ysgol ran allweddol ym mywyd y gymuned a daw amryw o aelodau i'r ysgol i rannu eu profiadau a'u diddordebau gyda'r disgyblion. Nodwedd ragorol yw'r modd y mae disgyblion yn cael eu trwytho yn eu treftadaeth. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cael ei weu'n fwriadus i mewn i bynciau ac i addoliadau ar y cyd, fel bod disgyblion yn ymwybodol o enwogion ac arwyr eu gwlad ym myd cerdd, celf a hanes. Yn ychwanegol, manteisir drwy'r ysgol ar gyfleoedd i wneud disgyblion yn ymwybodol o ddiwylliannau amrywiol.

101 Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd da i ymestyn ymwybyddiaeth disgyblion o fyd gwaith. Maent yn ymweld â siopau ac archfarchnad, gan wneud cyswllt gyda phartneriaeth addysg busnes y sir. Daw'r heddlu i hyrwyddo diogelwch ac maent wedi cael ymweliad a derbyn gwybodaeth werthfawr am y prosiect i

ddatblygu trafnidiaeth o fewn dalgylch yr ysgol. Bu un athrawes ar leoliad gwaith er mwyn datblygu ei hyfedredd a'i harbenigedd.

102 Cafodd rhai o ddisgyblion blwyddyn (B6) brofiad o redeg siop ffrwythau yn yr ysgol a chreu nwyddau i'w gwerthu mewn ffeiriau. Er hyn, nid yw'r ysgol yn gweithredu strategaeth fwriadus i alluogi disgyblion yn gyffredinol i ddatblygu eu medrau menter.

103 Mae nodweddion da i ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang a chynaladwyedd. Mae Cyngor Eco brwdfrydig ac mae'r grŵp hwn yn rheoli gweithgareddau sy'n helpu i edrych ar ôl yr ardd a'r pwll. Maent wedi ennill achrediad lefel arian yn y cynllun Ysgol Eco ac, wrth osod posteri, maent yn codi ymwybyddiaeth cymuned yr ysgol am agweddau cynaladwyedd. Maent yn sicrhau'n effeithiol bod ail-gylchu'n digwydd yn rheolaidd ac yn gwirio nad yw ynni yn cael ei wastraffu. Cyflwynir tlws wythnosol i'r dosbarth gorau am arbed ynni.

104 Caiff disgyblion gyfleoedd da i ddod yn ymwybodol o ddinasyddiaeth fyd-eang ac mae'r wythnos aml-ddiwylliannol a drefnir yn flynyddol, ynghyd â'r gweithgareddau sy'n deillio o'r cwricwlwm, megis y gwaith ar Batagonia, y cyswllt â gwlad Belg a'i gwybodaeth am fasnach deg, yn hyrwyddo'u dealltwriaeth yn effeithiol iawn.

105 Mae amrediad sylweddol o weithgareddau'r ysgol yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol ac yn hyrwyddo addysg gydol-oes yn effeithiol iawn.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

106 Mae canfyddiad y tîm arolygu yn cytuno â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

107 Mae'r gofal a'r cyfarwyddyd ar gyfer disgyblion yn dda, gyda blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i gynnig cymorth ac arweiniad i'r holl blant. Mae aelodau staff yn gofalu fod y disgyblion yn cael eu harwain i mewn i'r ysgol yn ddiogel yn y boreau, ac yn gadael yn drefnus ar ddiwedd y dydd. Rhoddir ystyriaeth dda i les disgyblion yn holl weithdrefnau'r ysgol.

108 Ceir partneriaeth ragorol gyda'r rhieni, yn seiliedig ar y cytundeb ysgol-a-chartref sy'n bodoli. Mae'r rhieni yn canmol y gofal mae'r ysgol yn ei roi i'w plant, ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gynigir iddynt i ddod i'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod materion neu bryderon.

109 Sefydlwyd gweithdrefnau effeithol i sicrhau fod disgyblion newydd yn ymgartrefu'n gyflym, gydag ymweliadau a nosweithiau rhieni yn cael eu trefnu er mwyn hysbysu pawb o arferion yr ysgol. Ceir sustem drosglwyddo effeithiol gyda'r ysgol uwchradd leol, gyda nifer o weithgareddau perthnasol yn cael eu

trefnu ar gyfer disgyblion B6, sydd yn sicrhau fod y drefn drosglwyddo mor esmwyth â phosibl.

110 Mae polisi clir ar gyfer hybu addysg bersonol a chymdeithasol ac mae'r gweithdrefnau wedi eu sefydlu yn dda. Mae gweithgareddau 'amser cylch' wedi eu hamserlennu, sy'n rhoi cyfleoedd i'r athrawon drin a thrafod unrhyw fater gyda'r disgyblion. Ceir sustem 'buddy-dysgu' gynorthwyol o fewn y dosbarthiadau, gyda disgyblion yn barod i helpu eu cyfoedion yn y gwersi.

111 Cydweithir yn dda gyda Swyddog Lles yr AALl er mwyn gwella presenoldeb a phrydlondeb. Ceir 'llyfr hwyr' ar gyfer monitro prydlondeb, ac fe ymgynghorir â rhieni mewn achosion pan fo eu plant yn cyrraedd yn hwyr yn aml. Caiff presenoldeb ei gofnodi ar sustem gyfrifiadurol. Defnyddir sustem 'Galw Diwrnod Cyntaf' os bydd disgybl yn absennol heb reswm, ac fe gysylltir â'r rhieni cyn deg o'r gloch y bore mewn achosion o'r fath.

112 Mae'r ysgol yn hybu ymwybyddiaeth disgyblion o fwyta'n iach yn dda, ac mae digon o gyfleon i ddatblygu ffitrwydd, ynghyd ag amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon. Fodd bynnag, nid oes digon o anogaeth penodol ar sut y gall y disgyblion eu hunain barhau i hybu a chynnal bywyd iach yn gyffredinol. Mae'r ffreutur yn cynnig amrywiaeth o fwyd iach, gan gynnwys salad drwy'r flwyddyn. Tyfir rhai o'r cynhwysion yng ngardd yr ysgol.

113 Mae adeilad yr ysgol yn ddiogel yn ystod y dydd, gyda'r tir a'r safle yn cael eu gwarchod gan ffens amgylchynol sydd mewn cyflwr da. Mae tri aelod o'r staff wedi cymhwyso mewn Cymorth Cyntaf.

114 Y pennaeth yw'r person dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant, ac mae gan un aelod o'r corff llywodraethu gyfrifoldeb tebyg, i fonitro trefn yr ysgol yn yr agwedd hon. Mae'r holl staff, gan gynnwys y staff ategol, yn ymwybodol o drefn a chamau Amddiffyn Plant, ac wedi derbyn hyfforddiant perthnasol. Mae tystysgrifau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol wedi eu diweddaru, a phan mae angen defnyddio gwirfoddolwyr ar fyr rybudd, mae'r pennaeth yn cynnal asesiadau risg perthnasol. Ceir cysylltiadau da yn y materion hyn gydag asiantaethau allanol, megis y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu.

115 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ymateb yn dda i'r Cod Ymarfer ar gyfer ADY ac yn bodloni gofynion statudol. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o brofion safonol i adnabod disgyblion sydd ag anawsterau dysgu, ac i fesur eu cynnydd, neu i ddarganfod agweddau sydd angen gwelliant. Defnyddir y wybodaeth yma yn dda i gynllunio cymorth priodol ar gyfer y disgyblion, ac fe ddarperir cymorth da gan arbenigwyr allanol i wella gallu'r disgyblion mewn sgiliau darllen ac iaith.

116 Mae'r CAUau a luniwyd yn glir, yn benodol ac yn amserol, gyda chyfeiriad tuag at y math o gefnogaeth sydd ei angen, ac at adnoddau perthnasol.

117 Ceir cefnogaeth dda gan gymorthyddion, ac fe addasir gwaith y dosbarth, y cymorth a'r adnoddau yn dda i gyfarfod ag anghenion disgyblion ag ADY. Mae'r

adroddiadau i'r rhieni a gofalwyr yn glir, gyda chyfleon iddynt ddod i'r ysgol i drafod y camau a'r targedau sydd ynghlwm â'r CAUau.

118 Mae'r ysgol wedi gweinyddu profion i adnabod y disgyblion hynny sydd yn fwy talentog a galluog ond, er bod agweddau o fewn gwersi yn cael eu haddasu ar eu cyfer, nid oes hyd yma unrhyw drefn ffurfiol i ymateb i'w anghenion.

119 Mae rheolau clir ynglŷn â disgwyliadau ymddygiad y disgyblion trwy'r ysgol, ac mae pob dosbarth wedi trafod a chynllunio rheolau pwrpasol. Caiff ymddygiad da ei ganmol ar ddiwedd wythnos yn y sesiwn addoli ar y cyd, gyda thystysgrifau hefyd yn cael eu rhai ar gyfer ymdrech, presenoldeb a moesau. Cyfranna hyn yn dda at sefydlu cymdeithas drefnus ac ymddygiad da ar draws yr ysgol.

120 Mae'r ysgol yn adnabod ac yn dathlu gwahaniaethau ac fe wneir y disgyblion yn ymwybodol o faterion megis gwahaniaethau hiliol a diwylliannol. Mae'r Wythnos Aml-ddiwylliant yn enghraifft ragorol o sut y mae'r disgyblion yn cael eu trwytho mewn diwylliannau a dod i ddeall a gwerthfawrogi cymdeithasau aml-ffydd mewn gwahanol wledydd. Ni chafodd unrhyw achos o hiliaeth ei gofnodi yn ystod y tri tymor cyn yr arolygiad ac mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth herio stereoteipio o bob math.

121 Mae pob disgybl yn cael cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd, beth bynnag eu rhyw neu eu hil. Ceir timau rygbi a phêl-droed sy'n cynnwys merched a bechgyn.

122 Ymatebir yn briodol i unrhyw achos o anghytuno a mân-gweryla a chaiff ei gofnodi o fewn y dosbarth. Mae gan y pennaeth ffeil sy'n cofnodi achosion mwy difrifol, ac fe gysylltir â rhieni mewn achosion o'r fath. Prin iawn yw'r enghreifftiau yma, fodd bynnag. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i adrodd am unrhyw achos o ymddygiad annerbyniol, ac mae amgylchedd gofalgar yr ysgol yn hybu hyn yn dda.

123 Mae safle'r ysgol yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, gan fod yna nifer o fannau mynediad ac allanfeydd sydd yn cynnwys rampiau. Mae un toiled wedi ei addasu ar gyfer pobl ag anabledd. Mae pob disgybl ag anabledd yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac fe addasir adnoddau a threfniadau ar eu cyfer, os oes angen.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

124 Mae canfyddiad y tîm arolygu yn cytuno â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

125 Cynigia'r pennaeth arweiniad cadarn i'r ysgol, yn seiliedig ar werthoedd teilwng ac ar greu perthynas dda gyda rhieni a chydweithwyr. Mae ganddo weledigaeth bendant ynglŷn â phrif amcan yr ysgol, sef ceisio sicrhau ei bod yn arfogi disgyblion gyda medrau fydd yn caniatáu iddynt dyfu i fod yn oedolion cyfrifol. Un strategaeth yw cydnabod gwerth adnoddau TGCh fel arf yn hyn.

126 Cefnogir y pennaeth yn hynod effeithiol gan ei ddirprwy, sy'n ymgymryd â rôlau penodol, megis bod yn gydlynydd yr ysgol ar gyfer asesu, mathemateg a phrosiect Ysgolion Iach. Mae ganddi ymrwymiad diffuant i'r cyfrifoldebau hyn ac i gydlynu staff addysgu a staff cynorthwyol yn aelodau o un tîm.

127 Ffurfir Uwch-dîm Rheoli'r ysgol gan y pennaeth, y dirprwy a phennaeth y Blynyddoedd Cynnar. Er eu bod yn cyfarfod yn rheolaidd, nid oes cofnodion o gynnwys a phenderfyniadau y cyfarfodydd hyn.

128 Rhan greiddiol o strwythur rheolaethol yr ysgol yw'r cyfarfodydd adran, a gynhelir bob pythefnos ac a arweinir gan arweinwyr yr adrannau. Cedwir cofnodion manwl o'r cyfarfodydd hyn, sydd yn arferol yn cynnwys elfen o fonitro pynciol, ynghyd â materion rheolaethol neu gwricwlaidd eraill.

129 Mae'r ysgol yn dilyn y canllawiau statudol mewn perthynas â phrosesau Rheoli Perfformiad, a chaiff targedau blynyddol yr athrawon eu cysylltu â rhai o flaenoriaethau datblygu'r ysgol.

130 Ystyrir datblygiad proffesiynol y staff yn elfen bwysig yn yr ysgol. Trwy drefniadaeth fwriadus y cydlynydd datblygiad proffesiynol, cânt eu hannog i fynychu hyfforddiant, o fewn yr AALl ac hefyd trwy drefniant asiantaethau eraill.

131 Ymysg y blaengareddau mae'r ysgol yn ymwneud yn effeithiol â hwy mae: meithrin dwyieithrwydd y disgyblion, cynllun yr Ysgolion Iach, prosiect Eco-Ysgol, materion cynaladwyedd a strategaeth asesu ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, nid yw datblygu medrau menter disgyblion wedi cael ystyriaeth ddigonol.

132 Lluniwyd swydd-ddisgrifiadau ar gyfer aelodau'r staff addysgu, y cymorthyddion a'r staff ategol. Maent yn ddogfennau trefnus ac yn gyfredol o safbwynt diffinio cyfrifoldebau deilydd y swydd. Er hyn, nid ydynt yn cynnwys llofnod y deilydd na chadeirydd y corff llywodraethu, na'r dyddiad y cytunwyd arnynt.

133 Mae aelodau'r corff llywodraethu yn frwdfrydig iawn dros yr ysgol ac ystyriant eu rôl fel rheolwyr ar ysgol sydd yn cyson ddatblygu. Mae is-bwyllgorau yn cyfarfod fel bo'r gofyn, adolygir polisïau yn eu tro, ac maent yn cwrdd â gofynion statudol wrth gyflwyno adroddiad blynyddol i rieni ac wrth ofalu'n effeithlon am gyllideb yr ysgol. Gwerthfawrogir gwaith ac ymroddiad yr aelodau i fywyd a gwaith yr ysgol gan y pennaeth.

134 Mae gan aelodau'r corff llywodraethu gyswllt â phynciau cwricwlaidd, a chawsant gyfle i godi ymwybyddiaeth o agweddau cwricwlaidd wrth i gydlynwyr arddangos stondinau yn y neuadd. Er hyn, nid oes adroddiadau o fonitro traws-ysgol yn cael eu cyflwyno i'r aelodau, fel bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y corff llywodraethu yn cael eu datblygu ymhellach.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

135 Mae canfyddiad y tîm arolygu yn cytuno â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

136 Roedd canfyddiad y tîm arolygu yn cytuno â barn yr ysgol ar chwech o'r saith cwestiwn allweddol. Yn yr un achos lle cafwyd gwahaniaeth barn, dyfarnodd y tîm arolygu radd uwch nag a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun.

137 Roedd adroddiad hunan arfarnu'r ysgol, a gyflwynwyd i'r tîm arolygu cyn yr arolygiad, yn ddogfen drefnus a chynhwysfawr. Ymysg ei nodweddion da, roedd sylwadau arfarnol am safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth, ymdriniaeth o ddata perfformiad a gwerthusiad o'r cynnydd a wnaed ers yr arolygiad diwethaf.

138 Mae'r ysgol wedi sefydlu prosesau hunan arfarnu rhagorol, yn seiliedig ar amserlen fonitro pynciau ac ysbryd o ymddiriedaeth ymysg staff. Mae cyswllt pendant rhwng y drefn hunan arfarnu, amcanion proffesiynol athrawon a blaenoriaethau'r CDY. Mae gwaith y cydlynwyr adrannau yn greiddiol i effeithiolrwydd y prosesau hyn.

139 Datblygodd y cydlynwyr pynciau ddealltwriaeth hynod o dda o'u cyfrifoldebau, sy'n cynnwys adolygu cynlluniau gwaith, cynghori cyd-athrawon a chreu adroddiadau monitro cwricwlaidd. Maent yn drefnus a chydwybodol ynglŷn â'r gwaith.

140 Yn achlysurol, mae'r pennaeth yn holi barn disgyblion am wahanol agweddau o ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r cydlynwyr hefyd yn holi barn disgyblion, er mwyn addasu'r ddarpariaeth. Darperir holiadur blynyddol ar gyfer y rhieni a dychwelir nifer helaeth ohonynt gydag ymatebion hynod gadarnhaol.

141 Dogfen gryno iawn yw'r cynllun datblygu ysgol cyfredol, am y cyfnod 2008-11. Nodir ynddi amcanion generic a rhai sy'n benodol i ddatblygiad y medrau allweddol. Ceir manylion y 14 targed datblygu ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ynghyd â chynlluniau gweithredu, person cyfrifol, amser ac unrhyw gost. Erbyn

hyn, mae nifer o elfennau wedi eu cyflawni eisoes. Ychwanegir rhestr o dargedau posibl ar gyfer y dyfodol. Nid yw'r ddogfen, fodd bynnag, yn cynnwys proffil ysgol nac adolygiad o gyflawniad mewn perthynas â blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol.

142 Mae nifer fechan o aelodau'r corff llywodraethu wedi treulio cyfnod yn cynorthwyo o fewn yr ysgol, neu yn arwain clybiau ôl-ysgol, yn wythnosol. Ystyriant fod y profiadau hyn wedi cynnig mewnwelediad gwerthfawr o fywyd a gwaith yr ysgol ac i ganfod llawer o arfer dda.

143 Bu aelodau'r corff llywodraethu yn trafod yr adroddiad hunan arfarnu diweddaraf yn fanwl, gan gynnig sylwadau a newidiadau. Er hyn, nid oes trefn o fonitro darpariaeth yr ysgol wedi ei sefydlu, hyd yma, o safbwynt derbyn adroddiadau gan gydlynwyr cwricwlaidd.

144 Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolygiad diwethaf, gan ymroi, trwy gynllun gweithredu perthnasol, i ddatblygu'r agweddau a gafwyd yn ddiffygiol yn yr arolygiad hwnnw. Tystiodd yr arolygiad presennol fod safonau hanes yng nghyfnod allweddol 1 wedi codi; mae canllawiau penodol yn cynnig cysondeb yn y mater o ymateb i waith disgyblion; mae prosesau cofrestru cyfrifiadurol ar waith ac mae'r ysgol a'i thiroedd yn cynnig amgylchedd diogel i'r disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

145 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

146 Mae gan yr ysgol nifer ddigonol o athrawon a staff cynorthwyol ar gyfer rhif y disgyblion. Mae ymroddiad yr holl staff cynorthwyol yn hybu nodau yr ysgol yn effeithiol, gyda defnydd rhagorol yn cael ei wneud o arbenigedd rhai unigolion.

147 Mae'r athrawon yn mynychu cyrsiau hyfforddiant-mewn-swydd sydd yn adlewyrchu blaenoriaethau datblygiad yr ysgol, gan wneud defnydd da o drefniadau sirol ac hefyd o asiantaethau allanol. Mae hyn yn cyfoethogi'r addysgu a'r ddarpariaeth o fewn y dosbarthiadau. Mae'r wybodaeth sydd yn cael ei derbyn ar y cyrsiau yn cael ei defnyddio yn dda i gynyddu ymwybyddiaeth athrawon o ddatblygiadau cyfoes.

148 Mae ysgrifenyddes yr ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at arferion gweinyddol dydd-i-ddydd a rheolaeth ariannol yr ysgol. Mae staff arlwyo yn cynnig prydau bwyd iachus tra mae'r staff amser cinio yn cyfrannu yn dda tuag at les a gofal y disgyblion. Mae'r adeilad yn cael ei gadw yn lân a thaclus gan y gofalwr.

149 Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau addas ar gyfer gwahanol anghenion y disgyblion. Ceir adnoddau TGCh ym mhob dosbarth, ynghyd â byrddau gwyn rhyngweithiol sydd yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol mewn gwersi. Mae llyfrgell

addas wedi ei threfnu yn daclus, ac yn cynnig nifer o lyfrau cyfeiriol sydd yn galluogi'r disgyblion i feithrin eu medrau ymchwilio.

150 Mae'r dosbarthiadau yn cynnig digon o le ar gyfer gweithgareddau ymarferol. Ceir arddangosfeydd deniadol o waith y disgyblion o fewn y dosbarthiadau ac yn y coridorau, ac mae hyn yn ychwanegu'n dda at naws ysgogol yr ysgol.

151 Mae maint a chyflwr y buarth a'r cae chwarae yn addas, ac mae mannau awyr agored delfrydol, gan gynnwys ardal goedig ar gyfer cynnal gweithgareddau tu allan i blant y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn elfen o ragoriaeth o fewn yr ysgol.

152 Caiff pob athro eu hamser di-gyswllt priodol i gynllunio, paratoi ac asesu a mae hyn yn cael ei fonitro yn effeithiol gan y pennaeth. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r ysgol wedi gwneud trefniadau addas ar gyfer ail-fodelu'r gweithlu.

153 Mae adnoddau'r ysgol yn cael eu rheoli yn effeithlon gan y pennaeth a'r corff llywodraethu. Caiff cyllideb yr ysgol ei rheoli yn dda gyda'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn ofalus iawn wrth oruchwylio effeithlonrwydd y gwariant. Golyga hyn fod blaenoriaethau'r CDY yn cael ystyriaeth fanwl wrth drafod y gyllideb. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth y mae'n ei derbyn gan yr AALl yn y cyd-destun hwn, a chedwir unrhyw danwariant blynyddol o fewn swm derbyniol.

154 Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Plant o dan 5 oed **Y Cyfnod Sylfaen: Gradd 2**

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Gradd 2 – Nodweddion da dim diffygion pwysig

Nodweddion da

155 Mae mwyafrif y plant sy'n bedair oed yn gallu canolbwyntio'n dda ar dasg, megis gwehyddu, ac yn dyfalbarhau yn dda.

156 Gall y plant dan bump oed wneud penderfyniadau wrth ddewis gweithgaredd. Dangosant frwdfrydedd tuag at nifer dda o weithgareddau, gan ymglymu'n dda yn y gweithgaredd.

157 Mae medrau cyd-weithio'r plant dan bump oed yn datblygu'n briodol wrth iddynt gyflawni tasgau penodol, neu wrth chwarae rôl yn yr ardal tu allan. Gall y mwyafrif hefyd gyd-chware'n ddedwydd ac adeiladol, a dangos gwerthfawrogiad o ymdrechion eu cyfoedion.

158 Llwydda plant pedair oed i ymchwilio ac arbrofi'n eiddgar, gyda rhai plant yn arbennig o dda am fod yn hunan-ddisgybledig a diwyd. Maent yn ymddwyn mewn modd cyfrifol yn y sefyllfa anffurfiol, gan ymagweddu'n dda tuag at weithgareddau.

159 Mae plant dan bump oed yn deall pwysigrwydd agweddau o hylendid, megis golchi eu dwylo wedi chwarae yn yr ardd. Gallant newid eu dillad yn briodol cyn, ac ar ôl, gweithgaredd ymarfer corff.

160 Llwydda mwyafrif helaeth y plant dan bump oed allu i gymryd eu tro mewn gweithgareddau grŵp, megis wrth weithio ar offer yn y neuadd, wrth chwarae gemau neu wrth ddewis offeryn cerdd. Mae'r plant tair oed yn aeddfed eu hymagweddau wrth ddewis aelodau i'w tîm, gan lwyddo i ddewis unigolion nad ydynt yn ffrindiau arbennig iddynt.

Diffygion

161 Mae lleiafrif bychan o'r plant pedair oed yn cael anhawster canolbwyntio wrth ymgynnull yn y sefyllfa dorfol ac yn methu â pharhau ar dasg am gyfnod disgwyliedig.

Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

162 Mae'r plant ieuengaf yn datblygu medrau gwrando da mewn sefyllfa dorfol a gallant ymateb i gyfarwyddiadau yn effeithiol. Mae eu dealltwriaeth o'r Gymraeg yn dda a gall y mwyafrif llethol ymateb trwy eiriau, ymadroddion a brawddegau. Dangosant allu i wrando'n briodol ar storïau a ddarllenir iddynt, ac maent yn gallu ymateb i'r cynnwys trwy bwyntio at lun.

163 Mae'r plant hŷn yn gallu ad-alw nifer o eiriau perthnasol i'r gwaith a wnaed ganddynt, megis grifft, cynffon, lindys, cocŵn a brigyn. Defnyddiant frawddegau syml i gofnodi a labelu. Trwy wrando'n astud, gall plant y flwyddyn Feithrin ail-adrodd geiriau cymhleth, megis corgimwch, sgleiniog, symudliw. Wrth ymwneud â gweithgaredd pwrpasol, llwyddant i ddyfalu geiriau o'r llythyren gychwynnol.

164 Mae plant tair oed yn datblygu dealltwriaeth dda o bwrpas iaith trwy arbrofi gyda marciau, gan ddefnyddio amrywiaeth o offer, megis brigyn a thriog du, sialc ar fwrdd du, toes a thrwy ymwneud â llyfrau yn yr ardal iaith.

165 Defnyddia plant pedair oed bensiliau yn gynyddol fedrus i ysgrifennu eu henwau neu enw creadur o'r môr a gallant gofnodi neges ar gerdyn post. Maent yn cofnodi brawddegau syml, yn rhai personol ac yn rhai disgrifiadol.

166 Mae'r holl blant dan bump oed yn ymestyn eu gafael ar eirfa a phatrymau iaith yn effeithiol trwy brofiadau amrywiol, megis efelychu, ail-adrodd, adeiladu ac ail-drefnu, a chydganu. Trafodant eu profiadau yn gynyddol hyderus, megis wrth fwynhau gweithgareddau yn y twb tywod neu chwarae rôl 'ar lan y môr'.

Diffygion

167 Nid oes diffygion arwyddocaol.

Datblygiad mathemategol

Gradd 2 Nodweddion da a dim diffygion

Nodweddion da

168 Mae'r plant pedair oed yn gallu ymchwilio i rifau mewn gwahanol ddulliau, ac yn datblygu diddordeb mathemategol wrth ymwneud â thasgau megis dilyn cyfres o rifau o 1 i 9 i lunio hwyl ar gyfer y cwch, neu osod pegiau mewn trefn briodol o gwmpas plât.

169 Gall plant tair oed feistroli'n gynyddol y cysyniad o gyfateb a chydweddu, trwy osod nifer penodol o 'wyau' ar ddeilen neu wrth ymarfer cydweddu rhifau hyd at 5 ac hyd at 10, neu trwy 'bysgota' a chwilota am wrthrychau yn y twb dŵr neu'r

twb tywod. Deallant fod nifer arbennig o wrthrychau yn cael ei gynrychioli gan symbol penodol.

170 Mae'r holl blant dan bump oed yn cadarnhau eu gwybodaeth o symbolau a rhifolion wrth blannu berw ar rifau-toes ac wrth ymarfer ffurfio'r rhif 4 ar fwrdd gwyn. Maent yn cadarnhau eu dealltwriaeth trwy weithgareddau ymarferol, megis trefnu rhifau ar y llawr, ychwanegu blociau, peintio rhif a chwblhau jig-so rhif.

171 Wrth grwpio mewn trioedd, trafod beth sy'n gwneud wyth, ac ymarfer cyfrif yn ôl o bump i un mae plant pedair oed yn gallu rhesymu'n effeithiol mewn modd mathemategol.

172 Datblyga plant tair oed feistrolaeth gynyddol ar eirfa a chysyniadau mathemategol wrth dasgau ymarferol, bwriadus, megis llenwi a gwagio cynwysyddion yn y twb tywod, gan drafod termau fel 'trymach', 'ysgafnach', 'mwy na' a 'llai na'.

173 Datblyga'r holl blant dan bump oed wybodaeth briodol o siapiau wrth iddynt gyfateb cylchoedd i'r rhifolyn a chyd-osod cylchoedd o wahanol liwiau.

Diffygion

174 Nid oes diffygion arwyddocaol.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

175 Mae gan blant pedair oed wybodaeth ragorol am drefn y camau mewn cylch bywyd mân greaduriaid, megis broga neu bili pala, a gallant enwi'r 'creadur' pan fyddo ar gam gwahanol. Deallant yn rhagorol am y cysyniad o gylch bywyd parhaus.

176 Mae gan yr holl blant dan bump oed ymwybyddiaeth ragorol o'r cysyniad o newid, sy'n cael ei atgyfnerthu wrth iddynt ddod â ffotograffau ohonynt eu hunain pan oeddent yn ieuengach, ac wrth ymwneud â llinell amser y teulu. Datblygant ddealltwriaeth dda o newid a thyfu wrth wylio cywion yn deor yn y dosbarth.

177 Trwy blannu hadau ac arsylwi dros amser arnynt yn tyfu'n blanhigion, deuant i ddeall yn rhagorol am y berthynas rhwng achos ac effaith.

Nodweddion da

178 Llwydda plant tair oed i arbrofi yn dorfol gydag amrywiaeth o ffynonellau sain, gan fyfyrio ar y math o sain a gynhyrchir.

179 Dealla plant tair oed yn dda am baratoi a chymysgu gwahanol gynhwysion i newid eu hedrychiad a'u natur wrth greu blasusfwyd.

180 Mae'r holl blant dan bump oed yn gwybod sut mae pobl o wledydd gwahanol, megis Ffrainc, yn cael eu cynrychioli gan wisgoedd, bwydydd neu iaith wahanol. Trwy brofiadau uniongyrchol, gwyddant fod map yn gallu dangos y ffordd o le i le a gallant nodi'r nodweddion a ddangosir gan y symbolau ar fap syml.

181 Gall plant tair oed ymchwilio yn bwrpasol mewn cynefinoedd naturiol er mwyn canfod trychfilod, neu gasglu brigau o fathau arbennig.

182 Trwy arbrofi'n uniongyrchol, daw plant pedair oed i ddeall fod rhai deunyddiau'n arnofio mewn dŵr tra bod eraill yn suddo.

Diffygion

183 Nid oes diffygion arwyddocaol.

Datblygiad corfforol

Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

Nodweddion da

184 Mae'r holl blant dan bump oed yn datblygu medrau llawdrin mân yn rhagorol mewn amrywiaeth o weithgareddau, megis defnyddio bysedd ac offer i wehyddu, neu i greu mwclis ar linyn, cwblhau jig-so neu i siapio toes yn greaduriaid y môr. Defnyddiant lif bwrpasol yn ddiogel a gofalus i dorri pren. Wrth godi pabell yn yr ardal wyllt, mae plant tair oed yn dangos rheolaeth dda ar ei chydrannau. Gallant dywallt llefrith yn ofalus wrth goginio. Dangosant reolaeth dda ar y brwsh wrth baentio'r modelau o gychod a wnaed ganddynt.

185 Gall y plant pedair oed olrhain siapau neu batrymau llinellog yn gelfydd. Maent yn defnyddio medrau siswrn yn effeithiol i dorri lluniau ar gyfer eu gludo ar waith celf, neu i dorri papur sidan ar gyfer creu llun mewn arlliwiau penodol.

186 Maent yn datblygu'r hyder i weithio'n ddiogel ar offer mawr yn y neuadd, ac i symud a theithio mrewn dulliau penodol, mewn ymateb i'r dasg.

187 Mae plant tair oed yn teithio'n grŵp trefnus tua'r cynefin goediog ar dir yr ysgol, ac yn crwydro yno mewn dull diogel, gan roi ystyriaeth i'w diogelwch eu hunain ac eraill.

188 Gallant symud mewn dulliau gwahanol mewn ymateb i gyfarwyddiadau, megis rhedeg, hercian, martsio neu glapio. Llwydda plant pedair oed i greu siapiau pwrpasol a newid cyfeiriad wrth deithio yn null creaduriaid y môr.

189 Mae'r holl blant dan bump oed yn dangos hyder cynyddol wrth symud y 'llygoden' gyfrifiadurol i leoli lluniau yn briodol ar y sgrin.

Diffygion

190 Mae lleiafrif bychan o blant pedair oed yn dangos diffyg rheolaeth gorfforol ac ymwybyddiaeth o ddisgwyliadau priodol mewn gweithgareddau corfforol.

Datblygiad creadigol

Gradd 1 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion rhagorol

191 Llwydda plant tair oed i arbrofi'n greadigol gydag amrywiaeth o ffynonellau sain, ac adfyfyrio ar y sain a gynhyrchir ganddynt. Datblygant eu gallu i ymateb i naws y sain a grëir gan gerddoriaeth benodol.

192 Mae plant pedair oed yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r broses greadigol wrth wehyddu creadur y môr. Arbrofant yn greadigol gydag amrywiaeth o dechnegau a deunyddiau, megis clai, toes, a phapur gwastraff, wrth iddynt greu modelau neu waith *collage*.

193 Mae 'r gwaith *collage* a wnânt, gydag amrywiol dechnegau a deunyddiau, megis gludo darnau neu rannau ar gylchoedd i greu Lola Lindys, neu ddefnyddio papur a *glitter* i greu murlun o liwiau'r môr, yn dangos dychymyg a dyfeisgarwch rhagorol.

Nodweddion da

194 Mae'r holl blant dan bump oed yn ddyfeisgar wrth greu cerbydau o bapur ailgylchu, neu ddefnyddio gwrthrychau o'r amgylchfyd naturiol i greu model o Bili Bach y Broga.

195 Mae'r dechneg o beintio gyda'r bysedd a gludo llun yn galluogi plant dan bump oed i greu gwaith trawiadol i gyfleu môr a'i greaduriaid.

196 Arbrofant ac ymchwiliant yn effeithiol wrth wneud marciau, argraffiadau a phatrymau gyda brigyn a thriog, neu gyda pasta.

197 Mae plant tair oed yn ymateb yn dda i symbyliadau sy'n datblygu eu dychymyg wrth chwarae rôl ym myd y môr-ladron, neu wrth goginio tra'n gwersylla yn yr amgylchedd naturiol.

198 Mae plant pedair oed yn creu lluniau siarcol effeithiol iawn o greaduriaid y môr, a defnyddiant adnoddau TGCh yn gynyddol hyderus i greu lluniau o gychod ar y môr.

199 Dangosant ddychymyg da wrth ddefnyddio blociau adeiladu i greu modelau o gychod.

200 Mae'r holl blant dan bump oed yn ymchwilio yn effeithiol a brwdfrydig i batrymau, gan ddefnyddio offer ac adnoddau amrywiol, megis cordyn, papur a thoes.

Diffygion

201 Nid oes diffygion arwyddocaol.

Gwyddoniaeth

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: **Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

Nodweddion da

202 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 1 a 2 yn trafod eu gwaith yn hyderus a synhwyrol, gan ddefnyddio geirfa a thermau gwyddonol yn gywir a phriodol.

203 Mae gwybodaeth disgyblion cyfnod allweddol 1 o bethau byw yn dda. Defnyddiant amrywiaeth o ffynonellau yn effeithiol er mwyn casglu gwybodaeth am ddrychfilod bychain a'u cynefin, megis drwy ddefnyddio chwyddwydrau. Gallant wedyn eu dosbarthu'n grwpiau ystyrlon. Datblygant allu i nodi'r prif gamau mewn cylchoedd bywyd pethau byw, megis broga.

204 Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 1 ymwybyddiaeth dda o'r amodau sylfaenol sydd eu hangen ar blanhigion i fyw, ac maent yn arbrofi a chadw dyddiadur er mwyn cadarnhau eu rhagfynegiadau.

205 Yng nghyfnod allweddol 1, mae disgyblion yn ymwybodol o'r pum synnwyr ac yn arsylwi, gwneud dewisiadau, mynegi barn yn effeithiol a nodi yr hyn y daethant o hyd iddo drwy eu gwaith.

206 Drwy ymchwilio, mae gwybodaeth y mwyafrif helaeth o ddisgybion cyfnod allweddol 1 am gylched trydan, dosbarthu a didoli defnyddiau gan ddefnyddio magned, a'r cysyniad o arnofio a suddo, yn datblygu'n dda.

207 Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn adeiladu'n dda ar y medrau a ddysgwyd yn y cyfnod blaenorol. Maent yn datblygu eu hastudiaeth o drychfilod sydd yn y pwll ac o gwmpas yr ysgol, gan sylwi ar eu haddasrwydd ar gyfer eu hamgylchedd. Deuant i gasgliadau wrth arbrofi ac edrych ar y llygredd a chlirdeb y pwll, gan fesur lefel ph y dŵr.

208 Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cynnig awgrymiadau synhwyrol ar sut i drefnu ymchwiliad, gan ddangos ymwybyddiaeth dda o ofynion profi teg a rheoli newidynnau, megis wrth ymchwilio a sylwi beth sy'n effeithio ar ddisgleirdeb bwlb.

209 Gall disgyblion cyfnod allweddol 2 lunio barn ar ôl ymchwilio i'r defnydd o becynnau addas ar gyfer cadw bwyd yn ffres. Gwnânt arolwg diddorol o'r defnydd o wastraff yn y cartref a deallant y pwysigrwydd o ailgylchu. Maent yn gwerthfawrogi'r pwysigrwydd o wirio'u canfyddiadau a chofnodi tystiolaeth ar ffurf graffiau. Gwnaed hyn yn llwyddiannus hefyd wrth ymchwilio i ddefnyddiau ac ynysyddion gwres.

210 Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth dda am brif hanfodion y corff dynol a sut i'w gadw'n iach drwy ddeiet gytbwys. Deallant beth yw

swyddogaeth y prif organau dynol, megis y galon a, thrwy arbrofi a chofnodi effeithiol, deallant effaith ymarfer corfforol ar y curiad.

211 Gwnânt ddefnydd da o lyfrau cyfair a'r We wrth ymchwilio i bynciau megis cysawd yr haul. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion hŷn yn cofnodi'r wybodaeth yn ddestlus, gan atgyfnerthu'n dda eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Diffygion

212 Nid oes diffygion arwyddocaol.

Dylunio a thechnoleg

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

213 Mae disgyblion ar draws y ddau gyfnod allweddol yn cyflawni gweithgareddau mewn amrywiaeth o gyfryngau, megis papur, tecstiliau, bwydydd a deunyddiau gwastraff.

214 Mae nifer helaeth o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos amrediad da o fedrau perthnasol, megis mesur, marcio, torri a ffurfio, wrth gyflawni'r tasgau tra'n dilyn eu syniadau neu gyfarwyddiadau'r athrawes.

215 Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn ymchwilio yn fanwl wrth ddatblygu syniadau. Er enghraifft, maent yn ymweld â pharc lleol er mwyn gwybod sut y mae llithren yn cael ei gwneud. Maent yn creu lluniau o'r llithren, cyn penderfynu sut i gynllunio model ohoni yn y dosbarth.

216 Gall nifer helaeth o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 ddewis bwydydd addas i'w rhoi ar *kebab,* a dewis y rhai mwyaf addas ar gyfer cael eu coginio.

217 Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd ymddangosiad cynnyrch, ac yn dangos sgiliau cynllunio da wrth greu gwahanol batrymau ar gyfer gorffeniad eu modelau, megis addurno calendar neu byped.

218 Maent yn cofnodi eu syniadau trwy greu cyfres o luniau, ysgrifennu cyfarwyddiadau, ynghyd â'r camau gwneud, yn drefnus a dealladwy. Wrth greu pyped, mae nifer dda o'r disgyblion yn defnyddio peiriant gwnïo mewn dull syml i greu amlinelliad o siap a ffurf y pyped.

219 Mae'r disgyblion yn dangos sgiliau gwerthuso da wrth adnabod agweddau i'w gwella. Gallant addasu eu cynnyrch, er enghraifft, wrth benderfynu ychwanegu bariau diogelwch ar ochr model o lithren.

220 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn ystyried gofynion y dasg yn dda, gan roi sylw priodol i wahanol syniadau a chreu nifer o ddyluniadau cynnar, cyn

penderfynu ar y dyluniad terfynol. Maent yn cynnig rhesymau am eu dewisiadau, er enghraifft, wrth benderfynu sut i greu pen ar gyfer pyped symudol, neu pa ddillad i'w dewis ar gyfer addurno bwgan brain.

221 Mae nifer helaeth o'r disgyblion yn casglu barn defnyddwyr er mwyn dod i ddeall anghenion eu cwsmeriaid, megis drwy holi athrawon a phlant cyfnod allweddol 1 ar beth i'w ystyried wrth ddylunio a chreu gêm addysgiadol ar gyfer y plant iau. Maent yn gwrando ar syniadau ac yn defnyddio hyn yn dda fel sail ar gyfer dylunio a chreu eu cynnyrch terfynol. Maent yn defnyddio offer TGCh yn hyderus wrth greu cyfres o gyfarwyddiadau clir ar sut i gyflawni eu tasgau, gam wrth gam.

222 Maent yn dewis y deunyddiau gorau i greu ffrâm sydd yn sefyll yn annibynnol, ac yn arbrofi'n llwyddiannus er mwyn dod i benderfyniad ar sut y gellir atgyfnerthu strwythur trwy gryfhau corneli.

223 Mae disgyblion hynaf y cyfnod allweddol yn dangos dealltwriaeth dda o ddefnyddio mecanwaith wrth ddylunio a gwneud tegan 'bwystfil bach' sydd yn defnyddio cam neu granc i symud. Maent yn datblygu eu syniadau wrth sylwi ar enghreifftiau o deganau amrywiol sydd yn defnyddio mecanwaith i symud.

224 Gall nifer helaeth o ddisgyblion hynaf cyfnod allweddol 2 greu cyfres o gyfarwyddiadau cyfrifiadurol penodol sydd yn rheoli'r newidiadau mewn goleuadau traffig ar raglen gyfrifiadurol. Wrth arbrofi a gwerthuso, maent yn gallu addasu eu cyfarwyddiadau i newid y drefn mae'r golau yn newid, ac yn cywiro unrhyw nam yn y drefn ddisgwyliadwy.

Diffygion

225 Nid oes diffygion arwyddocaol.

Hanes

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: **Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

Nodweddion da

226 Mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn dangos dealltwriaeth dda o wybodaeth hanesyddol, a chronoleg. Atgyfnerthir eu gwybodaeth gan ymweliadau â mannau lleol o ddiddordeb hanesyddol, megis Llancaiach Fawr, pentref canoloesol Cosmeston, ac Amgueddfa Sain Ffagan. Mae'r disgyblion yn dangos gwybodaeth dda o'u cynefin a'i draddodiad hanesyddol yn dilyn yr ymweliadau hyn.

227 Yng nghyfnod allweddol 1, mae dealltwriaeth y disgyblion o linell amser yn dda, er enghraifft wrth osod lluniau o ddeinosoriaid mewn trefn amser gywir.

228 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn deall yn dda y gwahaniaeth rhwng hen a newydd. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o ffotograffau i gasglu gwybodaeth am hanes gwyliau yn Aberystwyth ac yn trefnu lluniau o fywyd ac adloniant glan y môr mewn trefn amseryddol gywir. Maent yn defnyddio ffotograffau o'r cyfnod i ehangu eu gwybodaeth wrth gyflawni gwaith ymchwil syml i arferion bywyd.

229 Mae gwybodaeth hanesyddol disgyblion cyfnod allweddol 1 yn cael ei ymestyn yn dda drwy eu hastudiaeth o enwogion Cymru, megis Mary Jones a'i Beibl, neu waith William Morgan yn cyfieithu'r Beibl.

230 Mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 1 yn dangos dealltwriaeth dda o gamerâu a ddefnyddiwyd yn y 1950au ac yn gwneud cymariaethau deallus rhwng y rhain a chamera digidol cyfoes. Gall nifer fawr o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 nodi gwahaniaeth rhwng cerdyn post o'r 1950au a cherdyn post heddiw. Tynnant lun o'r cardiau, gan ddefnyddio du a gwyn i liwio yr hen gerdyn a lliwiau amryliw i ddangos nodweddion cerdyn post cyfoes.

231 Mae llawer yn dehongli yn dda y gwahaniaeth rhwng y dulliau a ddefnyddid i deithio i dref glan y môr yn y 1950au, a'r dulliau o deithio yno heddiw. Gall y rhan fwyaf gynnig rhesymau dilys dros y gwahaniaethau.

232 Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gyfeirio at y gwahaniaethau rhwng bywyd mewn dau gyfnod penodol o fewn yr ugeinfed ganrif, megis bywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd a bywyd a diwylliant y 1960au. Maent yn dangos deallwriaeth dda o anhawster prynu bwyd yn ystod y Rhyfel a hwylustod prynu bwyd yn y 1960au.

233 Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r We yn hyderus i gasglu gwybodaeth am ffasiynau a diwylliannau'r 1960au, a chymharu hyn i arferion perthnasol y presennol.

234 Yng nghyfnod allweddol 2, mae nifer dda o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o'r math o'r bwyd yr oedd y Tuduriaid yn ei fwyta a sut yr oeddynt yn ei dyfu. Maent yn cymharu yn llwyddiannus y math o fwyd yr oedd y tlodion yn ei fwyta a'r hyn yr oedd y cyfoethog yn ei gael, gan gynnig rhesymau deallus am y gwahaniaeth.

235 Mae gan lawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wybodaeth hanesyddol dda am ddigwyddiadau a phobol enwog Cymru, megis boddi Cwm Tryweryn a hanes y brodyr James, cyfansoddwyr yr anthem genedlaethol. Atgyfnertha'r disgyblion eu dealltwriaeth o ddigwyddiadau drwy weithgareddau chwarae rôl, megis dramadeiddio'r protestio ynglŷn â boddi'r cwm.

Diffygion

236 Nid oes diffygion arwyddocaol, ond nid yw carfan fechan o'r disgyblion yn meddu ar ystod digonol o eirfa hanesyddol, benodol i fynegi a dehongli eu dealltwriaeth yn glir.

Celf a dylunio

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 1 - Da gyda rhai nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

237 Gwna disgyblion drwy'r ysgol ddefnydd rhagorol o'u llyfrau braslunio i arbrofi a chofnodi eu harsylwadau a'u syniadau.

238 Defnyddia nifer da o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 eu sgiliau'n rhagorol wrth fod yn ddychmygol a chreu syniadau gwreiddiol ac arbrofol, megis wrth drosglwyddo patrymau yn null pelydr-x, wrth efelychu gwaith cynfrodorion Awstralia. Gosodant y gwaith gorffenedig lliwgar ar bolyn *didgeridoo.*

239 Mae nifer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn medru ymateb yn ystyriol a beirniadol i syniadau a delweddau amrediad o artistiaid o sawl cyfnod a diwylliant, megis cymharu'n effeithiol waith ar dirluniau, gan artistiaid megis Mary Lloyd Jones a Sarah Thwaits, ac i arbrofi gyda phatrymau geometreg, yn null mygydau Affricanaidd Esther Mahlangu.

Nodweddion da

240 Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn defnyddio geirfa bwrpasol yn dda wrth drafod agweddau o'u gwaith.

241 Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn ffocysu'n effeithiol ar siâp, patrwm a lliw mewn sawl cyd-destun. Dengys yr holl ddisgyblion safonau da o waith wrth iddynt weithio gyda gwahanol gyfryngau, gan gynnwys paent, pastelau a chlai.

242 Yng nghyfnod allweddol 1, mae disgyblion yn archwilio ac arbrofi'n dda gyda lliwiau cynnes ac oer i beintio tirwedd ac arbrofi gyda lliw croen, wrth efelychu portreadau Van Gogh.

243 Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn adnabod tebygrwydd a gwahaniaeth rhwng eu gwaith eu hunain ac erail. Er enghraifft, mewn gwaith *collage* mae blwyddyn 1 yn efelychu gwaith Cefin Burgess ar gapeli. Maent yn ymwybodol o liw a gwead wrth ddewis a thorri papur yn ddeheuig, er mwyn creu darnau gorffenedig deniadol i'w gosod ar gefndir pwrpasol.

244 Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymateb yn ymarferol a chreadigol i arddulliau a syniadau artistiaid amlwg, gan gynhyrchu gwaith o safon uchel. Defnyddiant offer priodol ar gyfer y dasg, megis wrth beintio llun ar raddfa fechan.

245 Mae disgyblion B3 a 4 yn defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau i wneud gwrthrychau ac arteffactau o safon da mewn dau a thri-dimensiwn, megis wynebau '*Mr Picasso'* o *papier mache* neu dai Tuduraidd. Maent yn printio teils a defnyddio clai i greu patrymau Celtaidd cywrain.

246 Wrth ganolbwyntio ar gyfnod y 1960au, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn defnyddio'r We'n effeithiol i ymchwilio i waith ac arddull Andy Warhol. Defnyddiant liwiau'n grefftus yn eu hefelychiadau manwl a dengys mwyafrif y disgyblion wybodaeth a barn bendant wrth werthuso'u gwaith.

Diffygion

247 Nid oes diffygion arwyddocaol.

Addysg gorfforol

Cyfnod allweddol 1: Gradd 3 – Nodweddion da'n gorbwyso diffygion.
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2 – Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

248 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn gwisgo'n briodol ar gyfer gwersi addysg gorfforol, boed hynny yn y neuadd neu oddi allan.

249 Gall disgyblion cyfnod allweddol 1 adalw rhai o'r medrau gêmau y buont yn eu hymarfer mewn gwersi blaenorol, megis taflu a dal, driblo, anelu a phasio.

250 Trwy gydweithio mewn grŵp, mae'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn gallu dyfeisio cyfres o weithgareddau, neu gêm, y gallant eu cyflawni gydag amrywiol offer mân.

251 Mewn gwersi cyfeiriannu, mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth dda o natur y weithgaredd, sy'n eu herio i ddatrys problemau.

252 Gall disgyblion cyfnod allweddol 2 adnabod ac enwi nifer o wrthrychau a gynrychiolir gan symbolau a nodweddion daearyddol. Maent yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau, trwy lwyddo i ddarllen mapiau o'r amgylchedd agos ac adnabod cyfeiriadedd a lleoli symbolau.

253 Ar y cyfan, maent yn cydweithio'n effeithiol mewn parau i ddatrys y problemau trwy ganfod symbolau a osodwyd mewn mannau penodol a chofnodi eu math.

254 Mewn gwersi gymnasteg, mae disgyblion pen uchaf cyfnod allweddol 2 yn gallu trafod y nodweddion sy'n perthyn i berfformiadau llwyddiannus, megis tyndra, cydbwysedd, ac ymddaliad siap. Gallant lunio cyfres o symudiadau wrth weithio ar y llawr, gan ddangos rheolaeth gorfforol briodol ac ymwybyddiaeth dda o'r meini prawf llwyddiant.

255 Mae eu gallu i gydweithio a chefnogi ei gilydd yn dda.

Diffygion

256 Mae nifer arwyddocaol o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn methu dangos rheolaeth ddigonol ar fedrau a thechnegau, megis bowndio pêl ar raced, neu daflu a dal pêl. Nid ydynt, chwaith, yn ddigon ymwybodol fod rheolau yn bwysig mewn gêm.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae staff a llywodraethwyr Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau yn falch bod yr arolygiad yn datgan bod ein hysgol yn un dda, gyda nifer o nodweddion rhagorol, ac y gwelwyd tystiolaeth gadarn ei bod yn ysgol sy'n parhau i wella.

Cadarnhawyd barn hunan arfarniad yr ysgol mewn chwech o'r saith cwestiwn allweddol a, lle'r oedd anghytuneb, barnwyd gradd uwch, gan amlygu'r nodweddion rhagorol.

Rydym yn arbennig o falch o'r gydnabyddiaeth o ansawdd yr addysgu a'r dysgu a bod ymrwymiad, ymroddiad a brwdfrydedd y staff addysgu a chefnogi yn derbyn y gydnabyddiaeth ddyledus.

Cyflawnwyd yr adroddiad cadarnhaol yma ar yr arolygiad trwy waith caled ac ymrwymiad pob aelod o'r staff, gyda chefnogaeth dda'r corff llywodraethol, y rhieni ac aelodau o'r gymuned.

Hoffai'r pennaeth, staff, disgyblion a llywodraethwyr ddiolch i'r tîm arolygu am y modd proffesiynol, trylwyr a theg y cynhaliwyd yr arolygiad, ac am eu cwrteisi a'r sensitifrwydd tra yn ein cwmni. Roedd yr arolygiad yn brofiad cadarnhaol ac adeiladol, yn ein helpu i ddathlu ein cryfderau ac i ddynodi meysydd ar gyfer datblygiad pellach.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau
Math o ysgol	Cynradd Sirol (gan gynnwys Cyfnod Sylfaen)
Ystod oedran y disgyblion	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Heol Castellau, Beddau, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf
Cod post	CF38 2AA
Rhif ffôn	01443 208700

Pennaeth	Mr Dafydd Iolo Davies
Dyddiad penodi	Medi 2007
Cadeirydd y llywodraethwyr	Mr Nigel Thomas
Arolygydd cofrestredig	Mr Len Jones
Dyddiadau'r arolygiad	7-9 Gorffennaf 2009

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	19.5	32	23	28	18	28	14	15	177.5

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	8	2	9

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	23 : 1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	8 : 1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	0
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	24.7
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.12 : 1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Haf 2008	92.2%	91.8%	93.6%
Hydref 2008	91.8%	93.1%	94.7%
Gwanwyn 2009	91.2%	94.5%	93.0%

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	15%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad 3

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008			Nifer y disgyblion yn B2				18
Canran y disgyblion ar bob lefel							
			D	W	1	2	3
Cymraeg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	28	44	28
		Cenedlaethol	0	2	10	63	26
Cymraeg: llafaredd	Asesiad athro	Ysgol	0	0	6	67	28
		Cenedlaethol	0	2	10	62	25
Cymraeg: darllen	Asesiad athro	Ysgol	0	0	17	50	17
		Cenedlaethol	0	2	15	59	23
Cymraeg: ysgrifennu	Asesiad athro	Ysgol	0	28	6	56	11
		Cenedlaethol	0	3	19	66	12
Mathemateg	Asesiad athro	Ysgol	0	6	33	50	11
		Cenedlaethol	0	2	11	65	22
Gwyddoniaeth	Asesiad athro	Ysgol	0	6	28	50	17
		Cenedlaethol	0	1	9	66	25

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	61%	Yng Nghymru	80%

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008			Nifer y disgyblion yn B6							12	
Canran y disgyblion ar bob lefel											
			D	A	F	W	1	2	3	4	5
Saesneg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	8	17	42	33
		Cenedlaethol	0	0	0	0	1	4	16	50	29
Cymraeg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	8	17	50	25
		Cenedlaethol	0	0	0	0	1	5	19	49	24
Mathemateg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	8	33	25	33
		Cenedlaethol	0	0	0	0	1	3	15	50	30
Gwyddoniaeth	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	8	17	42	33
		Cenedlaethol	0	0	0	0	0	2	12	52	32

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)			
yn ôl asesiad athro		yn ôl prawf	
Yn yr ysgol	50%	Yn yr ysgol	-
Yng Nghymru	74%	Yng Nghymru	-

D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd pedwar arolygydd gyfwerth â 10 diwrnod arolygu yn yr ysgol, a chyfarfod fel tîm cyn yr arolygiad. Roedd enwebai'r ysgol yn rhan o'r tîm, ond nid oedd asesydd cymheiriaid.

Ymwelodd yr arolygwyr hyn â:

- 29 gwers neu rannau o wersi, 27 yn y chwe phwnc a arolygwyd a dwy mewn pynciau neu agweddau eraill, gan gynnwys ADY; a
- sesiynau cofrestru, gwasanaethau dosbarth ac addoli ar y cyd.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfod â:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn yr arolygiad;
- uwch-reolwyr, athrawon a staff cymorth a gweinyddol yn ystod yr arolygiad; a'r
- cyngor ysgol;

.

Roedd y tîm hefyd wedi ystyried:

- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol;
- 45 ymateb i'r holiadur rhieni; roedd 98% ohonynt yn hynod gadarnhaol;
- dogfennau a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad; amrediad eang o waith blaenorol a phresennol disgyblion; a
- samplau o adroddiadau disgyblion.

Yn dilyn yr arolygiad, cynhaliodd y tîm gyfarfodydd â'r staff ac â'r corff llywodraethu.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu:

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Mr Len Jones (Arolygydd cofrestredig)	Cyd-destun a blaenoriaethau; crynodeb ac argymhellion; Cwestiynau allweddol 1, 5 a 6; Cyfnod Sylfaen ac addysg gorfforol
Mrs Audrey Evans (Arolygydd tîm)	Cwestiynau allweddol 2 a 3; gwyddoniaeth a chelf
Mr Glyn Griffiths (Arolygydd tîm)	Cwestiynau allweddol 4 a 7; dylunio a thechnoleg a hanes
Mr Dylan Jones (Arolygydd lleyg)	Cyfrannu at gwestiynau allweddol 1, 3, 4 a 7
Mr Dafydd Iolo Davies (Pennaeth)	Enwebai – mynychu cyfarfodydd; darparu gwybodaeth; paratoi ymateb yr ysgol

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r tîm arolygu fynegi eu diolchiadau i'r corff llywodraethol, y pennaeth, staff, rhieni a disgyblion yn yr ysgol am eu cydweithrediad a'u cymorth cyn ac yn ystod yr arolygiad.

Contractwr:

Baker-Phillips Educational Communications Ltd, Oaks Lea, Higher Knolton, Wrtyn, Wrecsam. LL13 0LF